# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE
## DYDD IAU, 28 EBRILL 2016
## AT 5.00 PM

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D W W Thomas (Presiding Member) oedd un llywyddu

| **Y Cynghorydd/wyr** | **Y Cynghorydd/wyr** | **Y Cynghorydd/wyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | J C Bayliss | P M Black |
| J E Burtonshaw | M C Child | A C S Colburn |
| D W Cole | A M Cook | J P Curtice |
| N J Davies | A M Day | P Downing |
| C R Doyle | V M Evans | C R Evans |
| W Evans | E W Fitzgerald | R Francis-Davies |
| F M Gordon | J A Hale | T J Hennegan |
| C A Holley | P R Hood-Williams | B Hopkins |
| D H Hopkins | L James | Y V Jardine |
| A J Jones | S M Jones | J W Jones |
| E J King | E T Kirchner | R D Lewis |
| D J Lewis | A S Lewis | P Lloyd |
| K E Marsh | P M Matthews | P N May |
| P M Meara | H M Morris | G Owens |
| J A Raynor | T H Rees | I M Richard |
| C Richards | P B Smith | R V Smith |
| R C Stewart | D G Sullivan | G J Tanner |
| C Thomas | C M R W D Thomas | M Thomas |
| L J Tyler-Lloyd | G D Walker | L V Walton |
| T M White | | |

200. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y cynghorwyr canlynol R A Clay, U C Clay, S E Crouch, J E C Harris, M H Jones, C E Lloyd, J Newbury, D Phillips, C L Philpott, R J Stanton and L G Thomas.

201. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Rhoddodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai cynghorwyr a swyddogion eu cael mewn eitemau ar yr agenda.

Gwnaeth Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd atgoffa cynghorwyr a swyddogion y dylid ond llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen

dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

**Cynghorwyr**

1) Datganodd y Cynghorydd J A Hale fudd personol yng Nghofnod 207 "Cyflwyniad Cyhoeddus - Disgyblion Ysgol St Thomas";

2) Datganodd y Cynghorydd C A Holley fudd personol yng Nghofnod 209 "Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020" a nododd ei fod wedi cael ei eithrio o'r Pwyllgor Safonau i aros a siarad a phleidleisio ar unrhyw eitem sy'n ymwneud â materion gwasanaethau cymdeithasol, cyflogaeth gyffredinol staff, materion cyllidebol a materion gwasanaethau cymdeithasol eraill heblaw am faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ei ferch gan gyfeirio'n benodol at ei swydd;

3) Datganodd y Cynghorydd M Thomas fudd personol yng Nghofnod 209 "Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020" a nododd ei fod wedi cael ei eithrio o'r Pwyllgor Safonau i aros a siarad a phleidleisio ar unrhyw eitem sy'n ymwneud â chyflogaeth gyffredinol staff, materion cyllidebol heblaw am faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ei wraig gan gyfeirio'n benodol at ei swydd;

4) Datganodd y Cynghorwyr M C Child, V M Evans, R Francis-Davies, A J Jones, E T Kirchner, A S Lewis, P M Meara, C Richards, R V Smith ac R C Stewart fudd personol yng Nghofnod 211 "Adroddiad Blynyddol y Partneriaethau Hamdden 2014/15".

202. **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin o'r cyngor a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2016;

2) Cyfarfod arbennig o'r cyngor a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2016;

3) Cyfarfod seremonïol o'r cyngor a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2016 ar yr amod y nodir bod y Cynghorydd T H Rees yn bresennol;

4) Cyfarfod arbennig o'r cyngor a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2016.

203. **YMATEBION YSGRIFENEDIG I GWESTIYNAU A OFYNNWYD YNG NGHYFARFOD CYFFREDINOL DIWETHAF Y CYNGOR.**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd adroddiad gwybodaeth yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r Cyngor.

## 204. CYHOEDDIADAU'R AELOD LLYWYDDOL.

**1) Newidiadau/diwygiadau i wŷs y cyngor.**

**a) Eitem 9 "Aelodaeth Pwyllgorau".**

Dosbarthwyd adroddiad diwygiedig.

**2) Dyfarniad Safon Iechyd Corfforaethol Aur**

Nododd yr Aelod Llywyddol y cyflwynwyd Dyfarniad Safon Iechyd Corfforaethol Aur Llywodraeth Cymru yn swyddogol i'r Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol ar 11 Mawrth 2016 ar ran yr awdurdod. Mae'r dyfarniad yn dilyn asesiad deuddydd gan Cymru Iach ar Waith a fu, yn ei adroddiad, yn canmol diwylliant, safonau cefnogaeth, cyflwyniad a buddsoddiad yr awdurdod mewn lles gweithwyr.

Roedd hyn o ganlyniad i ymrwymiad ac ymroddiad y gwasanaeth, lles y gweithgor, gwirfoddolwyr, gweithwyr ac undebau llafur a fu'n rhan o hyrwyddo a gwella diogelwch a lles ar draws y sefydliad. Rhoddwyd cydnabyddiaeth arbennig i gefnogaeth y tîm Safonau Rheoli Straen, Iechyd Galwedigaethol, Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch a chyflwyniad gwasanaeth Help Llaw. Teimlai'r aseswyr fod yr awdurdod wedi gwneud gwelliannau sylweddol o ran cynnwys, ymrwymiad, dull o'r brig i'r gwaelod a diwylliant mewn perthynas ag ymgorffori lles fel rhan o'r ffordd rydym yn gwneud busnes.

Roedd Craig Gimblett, Gary Davies, Ray Mitchell, Helen Lewis, Liz Thomas-Evans, Caroline Ford, Sarah Owens, Katja Davies, Alison Cosker a Jackie Griffiths (Undeb Llafur GMB) yn bresennol i dderbyn y dyfarniad.

**3) Tanya Nash, Tîm Datblygu Cynaliadwy - Gwobrau Arwain Cymru**

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol Tanya Nash, o'r Tîm Datblygu Cynaliadwy, am gyrraedd rhestr fer o dri yn y categori Arweinydd y Genhedlaeth Nesaf yng Ngwobrau Arwain Cymru 2016. Mae Tanya wedi helpu'r cyngor i gyflawni llwyddiant sylweddol, a gydnabuwyd y llynedd fel enillydd gwobr Sefydliad Sector Cyhoeddus Mwyaf Cynaliadwy'r DU.

**4) Gwasanaethau Cyfreithiol - Lexcel**

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol staff y Gwasanaethau Cyfreithiol sydd wedi ymgymryd ag asesiad blynyddol llwyddiannus arall gan Gymdeithas Gyfreithiol Lexcel yn ddiweddar. Dyma'r trydydd asesiad yn olynol sydd wedi nodi nad oes unrhyw elfennau na chydymffurfir â hwy; cyflawniad y dylid ei longyfarch.

**5) Jazz Carlin**

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol Jazz Carlin ar gyflawni'r amser gofynnol ar gyfer y 400m dull rhydd yn Rio drwy ennill mewn 4:04:33 yn Glasgow ac felly llwyddo deirgwaith ym Mhencampwriaethau Prydain. Enillodd y rasys 200m a 400m hefyd.

**6) Ras Enfys Tŷ Hafan**

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol bawb a gymerodd ran yn Ras Enfys Tŷ Hafan ar draeth Abertawe ar 23 Ebrill 2016. Cymerodd dros 2,000 o bobl ran gan helpu i godi arian hanfodol ar gyfer plant a phobl ifanc â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau yng Nghymru.

Mae'r digwyddiad yn annog cyfranogwyr i wisgo gwyn ac wrth iddynt redeg y 5km (3.1 milltir) cânt eu gorchuddio â phaent powdr lliwiau gwahanol. Nododd ei fod wedi clywed ei fod yn ddigwyddiad llawn hwyl a'i fod yn gobeithio y byddai llawer o gynghorwyr yn cymryd rhan y flwyddyn nesaf.

**7) Marathon Llundain**

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol holl staff y cyngor a phobl Abertawe a gymerodd ran ym Marathon Llundain ar 24 Ebrill 2016.

**8) Gwobrau Rhedeg Cenedlaethol 2016**

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol ras 10k Bae Abertawe Admiral y cyngor a ddaeth yn ail yng nghategori Ras 10k Orau Gwobrau Rhedeg Cenedlaethol 2016. Cynhaliwyd y seremoni wobrwyo yn Llundain ar 22 Ebrill 2016. Casglodd Nigel Jones, o'r tîm Digwyddiadau Arbennig, y wobr ar ran yr awdurdod.

Dyma gyflawniad arbennig gan mai categori'r Ras 10k Orau oedd y categori mwyaf o holl gategorïau'r gwobrau ac felly'r un a gafwyd y mwyaf o gystadleuaeth ynddo.

Llongyfarchodd Hanner Marathon JCP Abertawe hefyd a ddaeth yn 2il yn y categori Hanner Marathon gan wneud Abertawe'r unig ddinas neu dref a oedd wedi cyrraedd y rownd derfynol mewn dau gategori. Nododd fod hyn yn newyddion gwych i'n dyheadau i fod yn Ddinas Chwaraeon.

**9) Cystadleuaeth Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth 2016**

Nododd yr Aelod Llywyddol mai elusen addysgol gwrth-hiliaeth yw Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth â'r nod o fynd i'r afael â hiliaeth drwy greu modelau rôl (pêl-droedwyr yn bennaf ond ddim yn unig) i gyflwyno neges wrth-hiliaeth i bobl ifanc ac eraill.

Roedd y gystadleuaeth Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yng Nghymru yn ffordd hygyrch a diddorol i annog disgyblion i feddwl am y materion sy'n ymwneud â hiliaeth.

Nododd fod yn bleser ganddo gyhoeddi bod Ysgol Gynradd San Helen, Ysgol Gynradd Terrace Road ac Ysgol Ffynone House wedi ennill gwobrau yn y seremoni neithiwr yng Nghaerdydd.

**10) Dean Taylor - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol**

Diolchodd yr Aelod Llywyddol ar ran y cyngor i Dean Taylor, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, am ei ymroddiad a'i broffesiynoldeb wrth drawsnewid a moderneiddio agweddau ar yr awdurdod dan raglen Abertawe - Yn Addas i'r Dyfodol.

Nododd fod Dean Taylor bellach ar wyliau ac ar ddiwedd ei wyliau daw ei gyflogaeth â'r awdurdod i ben. Dymunodd yn dda iddo ar ei fentrau newydd.

**11) Non Stanford, Gemau Olympaidd Rio**

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol y dreiathletwraig Non Stanford am ei llwyddiant diweddar yn Cape Town a chael ei chynnwys yn Nhîm Treiathlon PF ar gyfer Gemau Olympaidd Rio.

205. **CYHOEDDIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR.**

**1) Dean Taylor**

Ategodd Arweinydd y Cyngor eiriau'r Aelod Llywyddol gan ddiolch i Dean Taylor am ei waith caled a'i broffesiynoldeb wrth weithio gyda'r awdurdod.

**2) Hillsborough**

Talodd Arweinydd y Cyngor deyrnged i'r 96 o gefnogwyr Lerpwl a fu farw yn Hillsborough 27 o flynyddoedd yn ôl. Fel arwydd o barch, bydd bŵau'r Brangwyn yn cael eu goleuo'n goch - lliwiau Clwb Pêl-droed Lerpwl - heno a byddant yn parhau i wneud hynny tan ddydd Llun. Bydd baneri yn lleoliadau'r cyngor hefyd yn chwifio ar eu hanner.

Ni fyddwn byth yn anghofio'r hyn a ddigwyddodd yn Hillsborough 27 o flynyddoedd yn ôl. Ni all yr ymgyrch am gyfiawnder gan y teuluoedd a dinas Lerpwl yn ei chyfanrwydd newid yr hyn a ddigwyddodd, ond mae'r ymgyrch a'r canlyniadau terfynol a glywsom o'r cwest yr wythnos hon wedi newid hanes.

Bydd cefnogwyr Lerpwl yn Abertawe'r penwythnos hwn ar gyfer y gêm ddydd Sul ac rydym am iddynt wybod, fel ein gwesteion, ein bod yn sefyll ochr yn ochr â hwy yn ystod y cyfnod hwn i gofio yn ogystal â chydnabod y cyfiawnder a gafwyd o'r diwedd.

Ni all unrhyw un osgoi cael ei effeithio gan ddigwyddiadau'r wythnos hon ac urddas parhaus teuluoedd, ffrindiau a chefnogwyr y 96.

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r Arglwydd Faer am gytuno i ysgrifennu at bobl Lerpwl gan ddangos cefnogaeth yr awdurdod.

Gofynnodd yr Aelod Llywyddol i bawb a oedd yn bresennol sefyll am funud o dawelwch fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

206. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd sawl cwestiwn gan aelodau'r cyhoedd. Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet.

**A)** Rhestrir meysydd y cwestiynau **nad** oes angen ymateb ysgrifenedig ar eu cyfer isod:

a) Eitem 12 "Adroddiad Blynyddol y Partneriaethau Hamdden 2014-2015";

b) Eitem 11 "Arolygiad Estyn o Wasanaethau Addysg yr Awdurdod Lleol i Blant a Phobl Ifanc 2013 - Y Diweddaraf".

**B)** Nid oedd unrhyw gwestiwn yn gofyn am ymateb ysgrifenedig.

207. **CYFLWYNIAD CYHOEDDUS - DISGYBLION YSGOL ST THOMAS.**

Cafwyd cyflwyniad ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) gan Mrs Blyth, Mr Dwyer (Pennaeth Ysgol Gynradd St Thomas), Katie Spendiff, Helen Dale (Y Ddraig Ffynci) a Lewi Cook, Tegan Tweed, Syeda Ahmed, Jackson Williams (disgyblion o Ysgol Gynradd St Thomas) a Chloe-Marie Richards a Ffion Morgan (disgyblion o Ysgol Gyfun Cefn Hengoed). Cytundeb hawliau dynol yw'r CCUHP sy'n pennu hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, iechyd a diwylliannol plant.

Diolchodd y Cynghorydd C Richards (Aelod y Cabinet dros Wasanaethau i Blant a Phobl Ifanc) am y cyflwyniad.

208. **AELODAETH PWYLLGORAU.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer enwebiadau/diwygiadau i aelodaeth cyrff y cyngor. Hefyd amlinellodd unrhyw ddiwygiadau ychwanegol a oedd wedi cael eu cyflwyno.

Cyfeiriodd at yr adroddiad gan nodi bod Arweinydd y Cyngor wedi gwneud y newidiadau canlynol i gyrff allanol yr awdurdod:

**1) Bay Leisure**
Tynnu'r Cynghorydd A S Lewis.
Ychwanegu'r Cynghorydd A J Jones.

**2) Cyngor Iechyd Cymunedol (CHC) - Bwrdd Abertawe Bro Morgannwg**
Ychwanegu'r Cynghorwyr J E C Harris, E J King ac E T Kirchner.

**3) Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)**
Ychwanegu Arweinydd y Cyngor, Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Cynghorwyr J P Curtice, C E Lloyd ac M Thomas.

**4) Pwyllgor Cydlynu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)**
Ychwanegu Arweinydd y Cyngor neu unrhyw un o'r cynrychiolwyr enwebedig o Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).

**PENDERFYNWYD** y dylid diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

**1) Pwyllgor Disgyblu Prif Swyddogion**
Tynnu'r Cynghorwyr J E Burtonshaw, J P Curtice a D W W Thomas.
Ychwanegu'r Cynghorwyr A M Cook, Y V Jardine, A J Jones ac E J King.

**2) Pwyllgor Apeliadau Disgyblu Prif Swyddogion**
Tynnu'r Cynghorwyr J A Hale a D G Sullivan.
Ychwanegu'r Cynghorwyr D J Lewis a D G Walker.

**3) Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gymunedau**
Tynnu'r Cynghorwyr J P Curtice a B Hopkins.
Ychwanegu'r Cynghorwyr J E Burtonshaw ac U C Clay.

**4) Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu**
Tynnu'r Cynghorydd J C Bayliss.
Ychwanegu'r Cynghorydd C R Doyle.

**5) Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddiwygio Gofal Cymdeithasol ac Ataliaeth**
Tynnu'r Cynghorydd P Lloyd.
Ychwanegu'r Cynghorydd J A Hale.

**6) Pwyllgor y Rhaglen Graffu**
Tynnu'r Cynghorwyr A M Cook, J P Curtice a R V Smith.
Ychwanegu'r Cynghorwyr C Anderson, C R Evans ac E J King.

209. **CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2016 - 2020.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad adroddiad a oedd yn rhoi manylion Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020.

**PENDERFYNWYD:**

1) Y dylid cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020.

210. **AROLYGIAD ESTYN O WASANAETHAU ADDYSG YR AWDURDOD LLEOL AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC 2013 - Y DIWEDDARAF.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf am y cynnydd o ran bodloni'r pum argymhelliad a gafwyd yn Adroddiad Arolygiad Estyn.

**PENDERFYNWYD:**

1) Y dylid nodi'r diweddaraf am y cynnydd o ran bodloni'r pum argymhelliad a gafwyd yn Adroddiad Arolygiad Estyn.

211. **ADRODDIAD PARTNERIAETH BLYNYDDOL.**

Cyflwynodd Aelodau'r Cabinet dros Les a Dinas Iach a Menter, Datblygu ac Adfywio adroddiad ar y cyd a oedd yn cynnwys gwybodaeth am weithrediadau partner cyfleusterau allweddol o fewn portffolio'r Gwasanaethau Diwylliannol.

**PENDERFYNWYD:**

1) Y dylid nodi'r adroddiad.

212. **ADRODDIADAU CRAFFU - ADRODDIAD EFFAITH CHWARTEROL.**

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol.

213. **CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR.**

**1) 'Cwestiynau Atodol' Rhan A**

Cyflwynwyd saith (7) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Roedd ymateb ysgrifenedig yn ofynnol ar gyfer y cwestiwn/cwestiynau atodol canlynol.

a) Cwestiwn 2. Y Cynghorydd P M Meara:

*"Faint o'r Gweithwyr Masnach hyn oedd wedi bod dan ofal yr awdurdod yn flaenorol?"*

Nododd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf y darperir ymateb ysgrifenedig.

**2) 'Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Ni chyflwynwyd unrhyw 'Gwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.51 pm

**CHAIR**